# Morwellt neu Wymon?

### Yr offer sydd ei angen

- Argraffwch neu rhannwch y lluniau ar ddalen (S_S_1), un i bob dosbarth/grŵp
- Argraffwch y daflen waith 'Morwellt neu Wymon?', un i bob pâr
- Pensiliau neu feiros
- Dyfeisiau y gellir eu defnyddio i gysylltu â’r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd

### I gwblhau’r gweithgaredd

1. Rhannwch y lluniau ar ddalen (S_S_1) gyda'r dosbarth drwy argraffu copïau neu arddangos ar ddyfais digidol. Gofynnwch i'r dysgwyr archwilio'r delweddau'n ofalus, gan nodi manylion fel gwead, siâp, lliw a chynefin.

2. Rhowch amser i'r dysgwyr i ystyried ac ymchwilio i'r hyn y gallant ei weld. A allent wahaniaethu rhwng morwellt a gwymon? Helpwch y dysgwyr i ddeall y gwahaniaeth rhwng planhigion fel morwellt (gyda gwreiddiau, coesynnau a dail) ac algâu fel gwymon (gyda gludafaelion, coesau ac egin).

3. Trafodwch y gwahanol rannau o bob organeb a'u swyddogaethau.

4. Rhannwch y dosbarth i barau darparwch y daflen waith 'Morwellt neu Wymon?' i bob par, ac arweiniwch y dysgwyr i gyfateb pob rhan o forwellt a gwymon i'w swyddogaeth gywir (A-I). Anogwch y dysgwyr i drafod sut mae'r swyddogaethau hyn yn cyfrannu at oroesiad gwymon a morwellt, ac i nodi unrhyw debygrwydd a gwahaniaethau rhyngddynt.

5. Helpwch y dysgwyr i labelu'r rhannau o forwellt a gwymon ar y diagram, gan sicrhau bod pob nodwedd yn cael ei nodi'n gywir.

**ALLWEDD ATEBION**

**Gwymon**


- Gludafael → F
- Coesyn → D
- Glaswelltyn → A

**Morwellt**

- Dail → B
- Coesyn → H
- Gwreiddgyff → G
- Gwreiddyn → C
- Blodau → I
- Hadau → E



# Morwellt neu Wymon?



# Morwellt neu Wymon?


*Cyfatebwch bob rhan o'r gwymon a'r morwellt i'w swyddogaeth gywir trwy ysgrifennu'r llythyren cyfatebol (A-I) wrth ymyl enw'r rhan.*


**Swyddogaethau**

A. Amsugno golau haul a chynhyrchu bwyd i'r gwymon trwy ffotosynthesis.
B. Amsugno golau haul i gynhyrchu bwyd ar gyfer y morwellt trwy ffotosynthesis.
C. Angori'r morwellt i wely'r môr ac amsugno maetholion a dŵr.
D. Cefnogi egin gwymon, gan weithredu fel coesyn.
E. Arnofio drwy'r dŵr i dyfu planhigion morwellt newydd mewn mannau eraill.
F. Glynu'r gwymon i greigiau neu arwynebau eraill.
G. Lledaenu o dan y tywod i storio bwyd a maetholion ar gyfer y morwellt.
H. Cefnogi'r dail a chludo dŵr, maetholion ac egni rhwng gwreiddiau a dail mewn morwellt.
I. Cynhyrchu paill a hadau ar gyfer atgenhedlu morwellt.

- ◯ Gludafael
- ◯ Dail
- ◯ Coesyn (Gwymon)
- ◯ Gwreiddgyff
- ◯ Gwreiddiau
- ◯ Blodau
- ◯ Hadau
- ◯ Glaswelltyn
- ◯ Coesyn (Morwellt)

**Labelwch y diagram isod gan ddefnyddio'r rhannau a'r swyddogaethau cywir o'r rhestr:**





*Morwellt yw'r unig planhigyn sy'n blodeuo sydd wedi addasu i fyw yn y cefnfor.*